# Sgiliau Hanfodol Cymru
## Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol (EDLS)
# Lefel 2 - Tasg dan Reolaeth - Asesiad Enghreifftiol
## Pecyn i Ymgeiswyr

| |
|---|
| Sioe Dalent |

Fersiwn **2.0**

| |
|---|
| Enw'r Ymgeisydd: |
| Rhif yr Ymgeisydd: |
| Dyddiad cofrestru ar gyfer EDLS: |
| Rhif Unigryw'r Dysgwr (ULN) *(os yw'n berthnasol)*: |
| Enw *neu* rif y Ganolfan: |

**Cyfarwyddiadau**

- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi eich enw, eich rhif ymgeisydd, eich ULN (os yn berthnasol) ac enw neu rif y ganolfan yn y blychau ar dop y dudalen hon.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud **pob** rhan o'r dasg.

Mae gennych chi **5 awr** i orffen y dasg, ond mae'n bosib rhannu'r amser hwnnw dros nifer o sesiynau. Mae'n **rhaid** i chi gofnodi isod beth oedd dyddiad dechrau a dyddiad gorffen pob sesiwn:

| Dyddiad **dechrau**'r dasg dan reolaeth: | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyddiad **gorffen** y dasg dan reolaeth (*dim mwy nag wyth wythnos yn ddiweddarach):* | | | | | | | |
| **Sesiwn 1** | **Sesiwn 2** | **Sesiwn 3** | **Sesiwn 4** | **Sesiwn 5** | **Sesiwn 6** | **Sesiwn 7** | **Sesiwn 8** |
| | *Dyddiad* | *Dyddiad* | *Dyddiad* | *Dyddiad* | *Dyddiad* | *Dyddiad* | *Dyddiad* |
| *Hyd* | *Hyd* | *Hyd* | *Hyd* | *Hyd* | *Hyd* | *Hyd* | *Hyd* |
| **Cyfanswm** yr amser a dreuliwyd ar y dasg (gan gynnwys amser ymchwilio): | | | | | | | |

Os oes angen mwy nag wyth sesiwn arnoch chi, rhowch ddyddiad/hyd bob sesiwn arall ar dudalen ar wahân.

Cynhyrchwyd ar y cyd gan y pedwar corff dyfarnu Sgiliau Hanfodol:
Agored Cymru
City & Guilds
Pearson
CBAC

**Mae'r pecyn hwn yn cynnwys senario a set o gyfarwyddiadau. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau ar gyfer y Drafodaeth Strwythuredig y bydd angen i chi ei chael gyda'ch aseswr ar ôl gorffen y dasg.**

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen drwy'r senario a'r cyfarwyddiadau yn ofalus cyn dechrau.
- Bydd rhywun yn eich goruchwylio gydol yr amser rydych chi'n gweithio ar y dasg, ond byddwch yn gallu defnyddio'r rhan fwyaf o'r offer sydd ar gael i chi fel arfer mewn sefyllfa go iawn (gan gynnwys defnyddio'r rhyngrwyd) yn ystod y cyfnod hwnnw.
- Mae gennych hawl i gael amser i ymchwilio y tu allan i'r amser gweithio pan ydych yn gwneud **Rhan 1** y dasg. Bydd hyn o dan amodau sydd wedi'u rheoli.
- Byddwch yn gweithio gyda phobl eraill, ond mae'n rhaid i bob darn o waith rydych chi'n ei gyflwyno fod yn waith rydych chi eich hun **a neb arall** wedi'i wneud. Does neb yn cael eich helpu gyda'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy'r dasg dan reolaeth hon.
- Rhowch eich gwaith i gyd i mewn ar ddiwedd **pob** sesiwn. Chewch chi ddim mynd â deunyddiau'r dasg i ffwrdd gyda chi, a chewch chi ddim eu gweld rhwng sesiynau.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn **llofnodi'r datganiad** sydd yng nghefn y pecyn hwn ar ddiwedd eich sesiwn olaf yn gweithio ar y dasg.

| |
|---|
| Mae'n rhaid i chi gwblhau Rhannau 1, 3 a 5 y dasg ar eich pen eich hun. Bydd angen i chi weithio gydag o leiaf ddau berson arall yn Rhan 4. |

## Trafodaeth Strwythuredig

Ar ôl i chi orffen y dasg byddwch yn cymryd rhan mewn Trafodaeth Strwythuredig gyda'ch aseswr. Efallai mai sesiwn un i un fydd hon, neu efallai y byddwch yn rhan o grŵp bach.

Cyfarwyddiadau'r Dasg: Sioe Dalent

## Senario

Rydych yn rhan o dîm sy’n trefnu sioe dalent i godi arian ar gyfer achos lleol.

Er mwyn i'r sioe allu mynd yn ei blaen, mae angen cefnogaeth busnesau lleol.
Mae rhywun wedi gofyn i chi greu adnodd amlgyfrwng a fydd yn annog busnesau lleol i gefnogi eich sioe dalent.

Dylai eich adnodd roi enghreifftiau o sut mae’r busnesau yn gallu rhoi cefnogaeth. Er enghraifft, gallent ddarparu:

- gwobrau
- setiau, colur ac adnoddau eraill
- nawdd.

Mae hefyd angen i chi esbonio pam eich bod yn cynnal y digwyddiad a phwy fydd yn elwa o unrhyw arian a gaiff ei godi.

## Golwg Gyffredinol

Cyn datblygu eich adnodd amlgyfrwng bydd yn rhaid i chi wneud gwaith ymchwil a phenderfynu ar y dull gorau o greu a chyflwyno eich adnodd.

Gallech wneud y dasg hon drwy greu gwefan neu ryw adnodd amlgyfrwng arall.

Bydd angen i chi greu system ffeilio strwythuredig. Dylai hyn ganiatáu i chi greu a datblygu gwybodaeth er mwyn iddi fod yn hawdd ei storio, ei hadalw a’i rhannu. Mae’n rhaid i'r system ddangos eich bod yn gallu rheoli gwybodaeth wrth i chi ddatblygu a llunio fersiwn terfynol yr adnodd rydych yn mynd i'w ddefnyddio i ennyn ymrwymiad busnesau lleol.

Yn ystod y dasg, mae’n rhaid i chi nodi'r offer a’r technolegau digidol rydych yn mynd i'w defnyddio i wneud y canlynol:

- chwilio am y wybodaeth rydych chi ei hangen
- llunio fersiwn drafft o’r adnodd amlgyfrwng creadigol
- datblygu’r adnodd
- dod â'r holl waith at ei gilydd yn y cynnyrch terfynol.

## Rhan 1
## Ar eich pen eich hun:

1.1 Mae’n rhaid i chi greu strwythur ffolderi priodol gydag o leiaf un ffolder ac un is-ffolder gyda ffeiliau priodol ym mhob un. Dylai enwau'r ffolderi a’r ffeiliau adlewyrchu eu cynnwys.

Mae angen i chi gasglu gwybodaeth am beth rydych chi eisiau ei gynnwys yn eich adnodd amlgyfrwng ar-lein ac am yr amrywiol ffyrdd rydych yn gallu creu a chyflwyno eich gwybodaeth. Mae’n rhaid i chi benderfynu pa offer digidol i'w defnyddio a chyfiawnhau eich penderfyniad.

1.2 Mae angen i chi ymchwilio a chofnodi gwybodaeth am y canlynol:

- beth rydych am ei gynnwys yn y sioe dalent
- yr adnoddau sydd eu hangen arnoch i drefnu sioe dalent
- y math o gefnogaeth y gallai busnesau penodol ei chynnig.

1.3 Mae'n rhaid i chi roi tystiolaeth i ddangos sut yr aethoch chi ati i wneud eich gwaith ymchwil; dylai hyn ddangos eich bod wedi gwneud y canlynol:

- defnyddio technegau mireinio chwilio drwy ddefnyddio ymadroddion ac allweddeiriau priodol
- asesu'r wybodaeth o safbwynt pa mor gyfoes, perthnasol, awdurdodol a manwl gywir ydyw, a'i diben.

1.4 Mae'n rhaid i chi gyflwyno eich canfyddiadau mewn fformat:

- sy'n glir, er mwyn i'r tîm allu eu deall
- sy'n eich galluogi chi a'ch tîm i wneud penderfyniad gwybodus am y math o adnodd amlgyfrwng ar-lein rydych am ei greu.

Dylech gadw eich gwaith yn y strwythur ffolderi rydych wedi'i greu yn 1.1, gan sicrhau bod yr enwau rydych wedi'u dewis ar gyfer y ffeiliau a'r ffolderi yn adlewyrchu eu cynnwys.

## Rhan 2
## Gweithio gydag eraill:

Bydd pob aelod o'r tîm yn creu adnodd gwahanol. Mae'n bwysig bod y wybodaeth rydych yn ei chynnwys yn gyson. Yn y rhan hon, byddwch yn gweithio gyda phobl eraill i benderfynu ar beth i'w gynnwys. Wedyn byddwch yn creu eich adnodd terfynol ar eich pen eich hun yn Rhan 3.

2.1 Mae’n rhaid i chi ddefnyddio dull cyfathrebu ar-lein i gysylltu ag aelodau eraill y tîm a phenderfynu ar yr offeryn cydweithredol cydamserol rydych am ei ddefnyddio i gydweithio.

2.2 Defnyddiwch yr offeryn cydamserol rydych wedi'i ddewis i gydweithio drwy wneud y canlynol:

- rhannu canfyddiadau eich ymchwil a gofyn am sylwadau
- gwneud sylwadau ar waith ymchwil o leiaf ddau aelod arall o'r tîm (Mae’n rhaid i chi allu rhoi tystiolaeth o hyn yn eich strwythur ffolderi yn Rhan 1)
- cytuno ar dair elfen gyffredin o leiaf y mae’n rhaid i bob adnodd eu cynnwys.

Dylech gadw eich gwaith yn y strwythur ffolderi rydych wedi’i greu yn 1.1, gan sicrhau bod yr enwau rydych wedi'u dewis ar gyfer y ffeiliau a'r ffolderi yn adlewyrchu eu cynnwys.

## Rhan 3
## Ar eich pen eich hun:

Mae’n rhaid i chi nawr gynllunio a chreu'r adnodd amlgyfrwng a fydd yn cael ei ddefnyddio i dynnu sylw'r bobl hynny a allai ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen arnoch ar gyfer eich sioe dalent.

3.1 Crëwch yr adnodd amlgyfrwng, gan gynnwys y canlynol:

- gwybodaeth briodol o'ch gwaith ymchwil
- o leiaf 2 ddelwedd/fideo am sioeau talent
- defnyddio o leiaf 5 techneg mewn ffordd briodol (e.e. sain, fideo, animeiddio, delweddau, testun, hyperddolenni, amseru, strwythur, templed, fformatio, cynlluniau lliw, hygyrchedd).

3.2 Gwnewch yn siŵr y bydd busnesau lleol a sefydliadau eraill yn gallu llywio eu ffordd yn rhwydd drwy eich adnodd amlgyfrwng i ganfod pam y dylent gefnogi eich sioe dalent.

Cewch gyflwyno tystiolaeth ar gyfer y dasg hon mewn fformat o’ch dewis.

Dylech gadw eich gwaith yn y strwythur ffolderi rydych wedi’i greu yn 1.1, gan sicrhau bod yr enwau rydych wedi'u dewis ar gyfer y ffeiliau a'r ffolderi yn adlewyrchu eu cynnwys.

## Rhan 4
## Gweithio gydag eraill:

Cyn penderfynu ar fersiwn terfynol eich adnodd amlgyfrwng, mae angen i chi ei rannu a chael adborth arno.

4.1 Mae’n rhaid i chi wneud y canlynol:

- defnyddio dull cyfathrebu ar-lein i gysylltu ag aelodau eraill o'r tîm a chytuno ar ddull cydweithio ar-lein er mwyn gallu gwneud y canlynol:
  - adolygu adnoddau eich gilydd
  - rhannu syniadau ac unrhyw argymhellion ar gyfer ychwanegiadau/newidiadau
- defnyddio iaith briodol ac ymddwyn yn briodol .

Dylech gadw eich gwaith yn y strwythur ffolderi rydych wedi’i greu yn 1.1, gan sicrhau bod yr enwau rydych wedi'u dewis ar gyfer y ffeiliau a'r ffolderi yn adlewyrchu eu cynnwys.

## Rhan 5
## Ar eich pen eich hun:

Nawr, mae’n rhaid i chi adolygu a gwerthuso rhai agweddau ar y dasg hon.

5.1 Crëwch ffeil a chofnodi tystiolaeth o'r canlynol:

- gwerthusiad o ddau ddull o ddiogelu gwybodaeth ddigidol
- asesiad o'r technolegau rydych wedi’u defnyddio yn y dasg
- asesiad o'r offer rydych wedi’u defnyddio yn y dasg
- asesiad o'r technegau rydych wedi’u defnyddio yn y dasg.

5.2 Mae’n rhaid i chi ddangos eich bod yn deall sut mae cydweithio yn gallu gwella ymarfer personol a phroffesiynol drwy bwyso a mesur y canlynol:

- sut roedd eich tîm wedi cydweithio
- sut roedd cydweithio wedi dylanwadu ar y penderfyniadau rydych wedi’u gwneud am yr adnodd amlgyfrwng.

Dylech gadw eich meddyliau yn eich strwythur ffolderi.

Does dim rhaid cynnal y Drafodaeth Strwythuredig yn ystod yr amser sydd wedi'i neilltuo ar gyfer y Dasg dan Reolaeth. Gellid hefyd ei chynnal ar ôl y cyfnod gweithio o 8 wythnos.

## Trafodaeth Strwythuredig

(i ddigwydd ar ôl i chi orffen eich Tasg dan Reolaeth yn llwyddiannus)

Mae'n rhaid i chi baratoi ar gyfer y drafodaeth a rhoi unrhyw nodiadau rydych chi wedi'u gwneud i mewn.

Byddwch yn cael cyfle i wneud y canlynol:

- trafod ffyrdd o gadw'n ddiogel mewn amrywiaeth o gymunedau ac amgylcheddau digidol
- cymharu amrywiaeth o offer digidol sy'n ehangu dysgu personol gan gyfeirio at sut y mae'r rhain yn bodloni gofynion a dewisiadau dysgu personol
- trafod ffurfweddiad sylfaenol dyfeisiau digidol cyffredin
- trafod manteision a risgiau posib tri offeryn cydweithredol digidol, a sut maent yn cael eu defnyddio
- trafod y penderfyniadau creadigol rydych wedi'u gwneud a'u heffaith ar y cynnyrch terfynol.

## Datganiadau

Mae’n rhaid llenwi datganiad yr ymgeisydd a datganiad yr aseswr.

Enw’r Ymgeisydd: ______________________________

**Datganiad yr ymgeisydd:**

Rwyf yn cadarnhau mai fy ngwaith fy hun yn gyfan gwbl yw hwn a fy mod wedi'i wneud yn ystod yr amseroedd sydd wedi'u nodi ar glawr blaen y llyfryn hwn.

Llofnod yr ymgeisydd Dyddiad ______

At ddefnydd staff y ganolfan a'r corff dyfarnu yn unig

| |
|---|
| **Datganiad yr aseswr:**<br>Rwyf yn cadarnhau bod yr ymgeisydd hwn wedi cyrraedd y safon sy'n ofynnol ar gyfer y dasg dan reolaeth. Cynhaliwyd y dasg dan reolaeth yn unol â'r amodau a nodwyd a'i chwblhau o fewn y cyfnod gweithio a'r gofynion o ran amser gweithio.<br><br>Llofnod yr aseswr Dyddiad_______ |
| **Datganiad y Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol (IQA):**<br>*(os samplwyd)*<br>Rwyf wedi sicrhau ansawdd y gwaith hwn yn fewnol ac rwyf yn cadarnhau bod y safonau wedi cael eu bodloni.<br><br>Llofnod yr IQA Dyddiad _______ |
| **Datganiad y Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol (EQA):**<br>*(os samplwyd)*<br>Rwyf wedi sicrhau ansawdd y gwaith hwn yn allanol ac rwyf yn cadarnhau bod y safonau wedi cael eu bodloni.<br><br>Llofnod yr EQA Dyddiad _______ |